




ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ar Drywydd Dysgu: Nodyn esboniadol y Map Ilwybrau



Cyd-destun

Mae Map llwybrau Ar Drywydd Dysgu yn cefnogi ymarferwyr i asesu dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLI). Mae'n cwmpasu blaenoriaethau dysgu allweddol cyfathrebu a rhyngweithio cymdeithasol, rhyngweithio â'r amgylchedd, a datblygiad gwybyddol cynnar.

Dangosir y cerrig milltir allweddol y mae pob dysgwr yn debygol o'u pasio mewn bocsys oren ar y Map llwybrau, a gall dysgwyr ddilyn llwybrau gwahanol drwy focsys gwyrdd amrywiol y Map llwybrau er mwyn cyrraedd y cerrig milltir hyn.

Newid terminoleg

Cyhoeddwyd y Map llwybrau gwreiddiol yn 2006, ac roedd yr adborth a dderbyniwyd fel rhan o'r broses o'i ddiweddarau yn awgrymu y gellid gwneud yr iaith a'r derminoleg yn gliriach ac yn haws eu deall. Mewn ymateb i'r adborth hwn, fe welwch bod newidiadau sylweddol wedi'u gwneud. Gwnaed hyn er mwyn cyfathrebu mewn ffordd gliriach yn y Map llwybrau ynghylch yr ymddygiadau a ddisgrifir; nid ydyn nhw'n dynodi newid yn yr ymddygiadau eu hunain.

Rhifau'r bocsys

Yn y fersiwn ddiwygiedig o'r Map llwybrau, fe welwch bod bocs 8 y Map llwybrau (Ymateb i'w enw ei hun) wedi'i hepgor, ar bwrpas felly, ond bod rhifau'r bocsys eraill wedi'u cadw'r un fath â'r gwreiddiol. Wrth ddiweddarau'r deunyddiau, casglwyd adborth ar focs 8 y Map llwybrau a ph'un a ddylid ei symud o fewn y Map llwybrau neu gael gwared yn llwyr ag ef. Gwnaed i fwrdd ag ef am sawl rheswm fel y nodir isod.

- Mae tystiolaeth cofnodion ymarferwyr yn awgrymu nad yw'r bocs hwn yn cael ei gyflawni, fel rheol, tan lawer yn hwyrach nag y mae ei safle yn ei awgrymu.
- Mae pobl yn defnyddio enwau o anwylder o bob math ar ddysgwyr, yn enwedig eu prif ofalwr, nad ydyn nhw yr un fath o reidrwydd â'u henw swyddogol; ac mae hynny yn gallu arwain at ddryswch.
- Wrth asesu, mae ymarferwyr wedi nodi ei bod yn anodd dweud p'un a yw'r dysgwr yn ymateb i'w enw neu i lais cyfarwydd.
- Mae rhai ymarferwyr wedi mynegi pryder bod yr awgrym nad yw dysgwr yn 'adnabod ei enw ei hun' yn brifo rhieni/gofalwyr yn ddiangen.

Mae rhifau gwreiddiol bocsys eraill y Map llwybrau wedi'u cadw er mwyn sicrhau eglurder i ymarferwyr wrth i ni symud o'r hen derminoleg i'r newydd. Mae cadw'r rhifau gwreiddiol hefyd yn osgoi dryswch i ymarferwyr sy'n cefnogi cynnydd dysgwyr sydd eisoes yn gweithio o fewn y Map llwybrau. Mae'n sicrhau parhad i ymarferwyr wrth gofnodi ac ystyried cynnydd dysgwyr dros amser wrth iddyn nhw ddechrau defnyddio'r Map llwybrau diwygiedig.

Dylid pwysleisio mai er hwylustod cyfeirio y rhifwyd bocsys y Map Ilwybrau. Er bod rhifau is i'r ymddygiadau sy'n cyfateb i gamau cynharach datblygiad, nid yw'r rhifau yn cynrychioli trefn ddisgwyliedig y broses ddysgu neu addysgu. Mae rhifau'r Map Ilwybrau yn ffordd hawdd o gyfeirio at yr ymddygiadau gwahanol. Yr ymddygiadau a ddisgrifir, nid eu rhifau, yw sail yr asesiad i gefnogi cynnydd dysgwr ac ar gyfer deialog broffesiynol rhwng ymarferwyr.

Llwybrau rhwng bocsys y Map Ilwybrau

Mae'r saethau sy'n ymddangos ar hanner uchaf y Map Ilwybrau yn dynodi'r llwybrau y mae dysgwyr yn debygol o'u dilyn. Nid oes saethau ar hanner waelod y Map Ilwybrau oherwydd, wrth i'r dysgwyr ddatblygu, mae amrywiaeth y llwybrau y gallen nhw eu dilyn yn ehangu'n sylweddol, a gallai fod yn ddryslyd dynodi rhai llwybrau posibl yn unig.

Bocs 36 y Map Ilwybrau (Dewis o blith dwy neu fwy o eitemau)

Wrth ddiweddaru'r Map Ilwybrau, mae lliw bocs 36 y Map Ilwybrau wedi newid o oren i wyrdd, am fod y dystiolaeth yn awgrymu nad yw 'Dewis o blith dwy neu fwy o eitemau' yn rhan o'r cerrig milltir datblygiad hanfodol y mae pob dysgwr yn pasio drwyddyn nhw.

